BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Plant sy'n cael trafferth mynychu'r ysgol

Ymwadiad: Mae'r crynodeb hwn o dystiolaeth yn cynnwys llenyddiaeth berthnasol a nodwyd o chwiliadau ar y pwnc uchod, nid yw'n rhestr gynhwysfawr, mae'n cyflwyno canfyddiadau allweddol ac nid argymhellion ar gyfer ymarfer.

Cynnwys

Cyflwyniad 1
Rhesymau y gallai plant gael anawsterau mynychu'r ysgol 2
Anghenion plant sy'n cael anawsterau mynychu'r ysgol 3
Lleisiau plant a rhieni sydd wedi profi anawsterau mynychu'r ysgol 4
Crynodeb 6
Cyfeiriadau 7

Cyflwyniad

Weithiau gellir cyfeirio at blant sy'n cael trafferth mynychu'r ysgol fel osgoi ysgol ar sail emosiynol neu wrthod ysgol. Fodd bynnag, gall y termau hyn fod yn broblem gan nad ydynt yn adlewyrchu'r holl broblemau y mae'r plant hyn yn eu profi. Felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, byddwn yn defnyddio'r term plant sy'n cael anawsterau mynychu'r ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y rhesymau pam y gall plant gael trafferth mynychu'r ysgol, pa anghenion a allai fod ganddynt, ac mae hefyd yn rhannu rhai o brofiadau'r plant hyn a'u rhieni.

Rhesymau y gallai plant gael anawsterau mynychu'r ysgol

- Pwysau academaidd yn cynnwys profion [2, 4]
- Bwlio (gan blentyn neu oedolyn) [2, 4]
- Materion yn ymwneud â ffrindiau [2]
- Gorbryder cymdeithasol [2, 3]
- Anawsterau dysgu [2]
- Cefnogaeth ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau nad yw'n effeithiol [2]
- Cefnogaeth â salwch corfforol nad yw'n effeithiol (cyflyrau meddygol difrifol a/neu gronig) [2]
- Anghenion addysgol arbennig ac anableddau nad oes diagnosis wedi'i roi [2]
- Salwch corfforol nad oes diagnosis wedi'i roi [2]
- Pryderon yn ymwneud â materion yn y cartref [2, 3]
- Anawsterau synhwyraidd [2]
- Anawsterau symudedd [2]
- Gwendidau o ran gweithrediad goruchwyliol [2]
- Amseroedd egwyl heb strwythur iddynt [2]
- Gofid gwahanu [2, 3]
- Oedi datblygiadol emosiynol [2]
- Teimlo nad oes neb yn deall na chredu eu hanawsterau [2]
- Diffyg ymdeimlad o berthyn yn amgylchedd yr ysgol [2]
- Polisïau ymddygiad sy'n rhy galed neu'n cosbi'n rhy llym [2, 3]
- Peidio â theimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol [2, 4]
- Newidiadau o ran hormonau neu ymennydd pobl ifanc [2]
- Trawma [2, 4]
- Ymosod corfforol neu rywiol [2, 4]
- Amhariad yn y dosbarth [2]
- Newidiadau o ran staff neu o ran y drefn arferol [2, 4]
- Gorbryder yn gysylltiedig â chyflwr a nodwedd [3]
- Gorbryder yn ymwneud ag ysgol [3]
- Rhieni'n dioddef o iselder [3]
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod [4]
- Statws economaidd-gymdeithasol [4]
- Cyfle anghyfartal i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau cefnogi [4]
- Tlodi/digartrefedd [4]
- Galar [4]
- Ysgariad/gwahanu o fewn y teulu [4]
- Esgeulustod [4]
- Dibyniaeth [4]
- Symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd [4]
- Maint yr ysgol [4]

Anghenion plant sy'n cael anawsterau mynychu'r ysgol

Nododd arolwg o 151 o Awdurdodau Lleol (ALl) yn Lloegr, ac ymchwiliad trylwyr i 10 ALl, 6 uchelgais:

- Uchelgais 1. Gofyn, gwrando, cyfathrebu: mae angen i benderfyniadau am addysg plant gael eu gwneud gyda phlant, eu teuluoedd ac oedolion eraill yn eu bywydau - mae'r rhesymau pam nad yw plant yn mynd i'r ysgol yn gymhleth felly mae angen ymchwilio'n llawn iddyn nhw'n gan ymgysylltu'n briodol. Mae llawer o blant yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt.
- Uchelgais 2. Cwrdd â phlant lle maen nhw: mae pob plentyn yn cael cymorth yn yr ysgol, drwy deuluoedd ysgolion - mae gormod o blant yn colli'r ysgol o ganlyniad i anghenion addysgol arbennig ac anableddau neu anghenion iechyd meddwl nad ydyn nhw wedi'u bodloni, bwlio nad eir i'r afael ag ef neu broblemau yn y cartref. Roedd llawer o blant yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth yn bodoli o ran eu hanghenion.
- Uchelgais 3. Diarddel yn sbardun ar gyfer ymyrraeth: dylai plant gael addysg wych bob amser, waeth beth yw'r lleoliad, a dylen nhw gael cymorth wedi'i dargedu ar ôl iddyn nhw gael eu gwahardd neu eu diarddel - dylai anghenion plant sy'n cael eu diarddel neu eu gwahardd gael eu hasesu, a dylid rhoi cynllun ar waith er mwyn bodloni'r anghenion hynny.
- Uchelgais 4. Gadael i blant fod yn blant: ni ddylai unrhyw blentyn deimlo fod angen iddo fethu'r ysgol i gefnogi ei deulu – mae angen ei nodi a'i gefnogi er mwyn iddo allu bod yn yr ysgol yn llawn amser. Teimlai rhai plant fod cyfrifoldebau gartref yn cael blaenoriaeth dros addysg gan gynnwys; gofalu am aelod o'r teulu, gofalu am eu plentyn eu hunain, neu roi cymorth ariannol i'w rhieni.
- Uchelgais 5. Mae presenoldeb yn fater i bawb: mae arweinwyr ysgolion yn canolbwyntio'n ddiflino ar bresenoldeb ac yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fod yn yr ysgol ac i fynychu'n rheolaidd – mae gan ysgolion, Awdurdodau Lleol, gofal cymdeithasol, gweithwyr y GIG a phartneriaid cymunedol gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod y plentyn yn mynd i'r ysgol bob dydd a chefnogi'r plentyn hwnnw.
- Uchelgais 6. Dim rhagor o'r hyn sy'n 'anhysbys-hysbys': ni ddylai diffyg gwybodaeth byth fod yn rhwystr i gadw plant yn ddiogel a sicrhau eu bod nhw'n cael addysg o ansawdd uchel - mae angen data clir ar Awdurdodau

Lleol ac ysgolion i nodi plant nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol yn rheolaidd neu'n colli addysg.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau ar gyfer pob uchelgais o ddulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn y maen nhw wedi'u nodi. [1]

Lleisiau plant a rhieni sydd wedi profi anawsterau mynychu'r ysgol

"Yr hyn y byddwn i wedi bod wrth fy modd ag ef […] yw pe bydden nhw wedi cynnal gwasanaeth yn gofyn i'r plant sut maen nhw'n credu y gallai'r ysgol helpu'n fwy […] yn hytrach na siarad ymhlith ei gilydd […] dydych chi ddim wir yn gofyn i'r plant sut y gallai'r ysgol helpu" – Merch, 14, yn mynychu Darpariaeth Addysgol Amgen (lleoliad i blant nad ydyn nhw'n gallu mynd i ysgol brif ffrwd) dair gwaith yr wythnos. [1]

"Byddai'n braf pe bai staff yn chwilio am arwyddion o ran rhywun y mae angen cymorth arno. Byddai unigolion fel fi yn hoffi pe bai rhywun yn dod atyn nhw pe bai angen cymorth arnynt" - Bachgen, 15, yn mynd i ysgol arbennig annibynnol. [1]

"Fel hyn y dylai ysgol fod - gwahanol bethau ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau. Maen nhw'n siarad â chi fel pobl gyffredin, nid fel plentyn twp. Pethau ymarferol, fel plant ag ADHD yn cael gwneud pethau mwy ymarferol" - Bachgen, 15, ar symudiad wedi'i reoli. [1]

"Pan fyddan nhw'n dweud nad ydych chi'n cael dod i'r ysgol, maen nhw'n eich gadael chi am amser hir […] ac yna maen nhw'n disgwyl i chi fynd yn ôl i'r drefn arferol […] a dydy hynny ddim yn hawdd" - Bachgen, 15, yn mynychu Darpariaeth Addysgol Amgen. [1]

"Yn yr ysgol, yr wyf fi 3 blynedd ar ei hôl hi - rwy'n teimlo nad ydw i'n cael digon o gymorth gyda fy ngwaith. Mae mynd i'r ysgol uwchradd yn codi ofn arnaf i oherwydd rwy'n teimlo nad ydw i'n mynd i gael cefnogaeth ac rwy'n poeni y bydd plant eraill yn pigo arnaf i oherwydd hynny" - Merch, 11, gofalwr ifanc. [1]

"Yr hyn a fyddai wedi helpu yw cael un person yn gyfrifol ac yn dweud eu bod nhw'n sicrhau bod y pethau hyn i gyd yn dod at ei gilydd yn gyflym […] yr oeddem ni'n aros ac aeth pethau'n waeth ac yn waeth tan ei bod yn argyfwng oherwydd prin yr oeddem ni'n dal ein gafael" - Mam merch 13 oed nad yw'n mynd i'r ysgol. [1]

Trawma Ysgol: Llais y Plentyn gan Fforwm Rhieni a Gofalwyr Hull https://youtu.be/xialijCMh08

- Fideo sy'n disgrifio sut mae plant sy'n profi trawma ysgol yn teimlo [5]

'Teach Me' gan Anna Cottrill https://youtu.be/0hOUR0Aykcw

- Fideo sy'n cynnwys lleisiau llawer o blant ag Anghenion Addysgol Arbennig yn siarad am sut maen nhw'n teimlo [5]

'Walk in my Shoes' gan Erin Davidson https://youtu.be/KSKvazfTLv8

- Fideo am lais merch ag awtistiaeth a'i phrofiad hi [5]

'School' gan xPearl_Heartx https://youtu.be/ylZbsgsfgE0

- Fideo am lais merch ag awtistiaeth a'i phrofiad hi [5]

B, 11 oed, Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig

'Mae'r ysgol hon yn difetha fy mywyd i. Rwy'n flin drwy'r amser ac mae'n rhwystredig iawn. Pan fyddaf yn yr ysgol, yr wyf wedi fy nghaethiwo. Os ydw i'n gofyn am gael mynd allan o'r dosbarth, maen nhw'n dweud wrthaf am anadlu'n ddwfn ac mae hynny'n gwneud i mi gael pwl o banig. Gan fy mod i'n cuddio fy mhersonoliaeth, maen nhw'n credu fy mod i'n iawn yn yr ysgol. Nid ydyn nhw'n gwneud dim. Os ydw i'n mynd i mewn drwy'r amser, rwy'n dod allan.' [5]

Sasha, 15 oed, yr oedd hi eisiau bod yn yr ysgol. Mae hi wedi'i hesgeuluso gan ddiffyg addysg addas.

'Peidiwch â'n camgymryd ni am "beidio ag ymdrechu". Rydym ni wedi ymdrechu, a dyma'r sefyllfa yr ydym ni ynddi.' [5]

Tyler, wedi bod yn chwilio am addysg briodol ers 4 mlynedd, Cyngor Sir Dwyrain Sussex

'Fy mhryderon yn yr ysgol 1. Cael fy mwlio 2. Dechrau cael fy mrifo 3. Brifo fy hun 4. Peidio â mynd i'r ysgol oherwydd y bwlis.' [5]

12 oed - heb fod yn yr ysgol ers 2 flynedd. Aros am asesiad Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig ers 18 mis. Ar ei 5ed cynllun cymorth ond nid oes Cynllun Addysg

a Gofal Iechyd iddi. “Mae hi’n alluog ond nid yw’n gallu ymdopi â’r gorbryder a’r sefyllfa gymdeithasol.” ‘Sut wyt ti? - Mae’n hi’n iawn.’ [5]

Crynodeb

Mae llawer o'r ymchwil yn awgrymu bod anawsterau mynychu'r ysgol yn fater cymhleth sy'n gofyn am ymchwiliad priodol i ddarganfod y materion sy'n wynebu'r plenty, ac yna i ddarparu cymorth i ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw. Themâu cyffredin a gododd o leisiau’r plant oedd; eu problemau’n cael eu diystyru, teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt, cael eu beio, diffyg cefnogaeth a chael eu hanghofio/gorfod aros yn hir.

Cyfeiriadau

[1] Y Comisiynydd Plant (2022) ‘Voices of England’s Missing Children’. Ar gael yn: https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/voices-of-englands-missing-children/ Cyrchwyd: 2/3/23

[2] Not Fine in School (2022) ‘Ymchwil’. Ar gael yn: https://notfineinschool.co.uk/research Cyrchwyd: 2/3/23

[3] Tekin & Aydin (2,022) ‘School refusal and anxiety among children and adolescents: A systematic scoping review’. New Directions for Child & Adolescent Development, 2022, (185-6) t:43-65. Ar gael yn: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1002/cad.20484?saml_referrer HANIAETHOL YN UNIG

[4] Devenney & O'Toole (2,021) ‘What Kind of Education System are We Offering’: The Views of Education Professionals on School Refusal’. International Journal of Educational Psychology, 10 (1) t:27-47. Ar gael yn: https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1308448.pdf Cyrchwyd: 2/3/23

[5] Not Fine in School (2,022) ‘Experiencing school attendance problems & barriers?’. Ar gael yn: https://notfineinschool.co.uk/home/f/hes-fine-in-school Cyrchwyd: 3/3/23